Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn

Ysgrifennydd: Alwyn M. Roberts, Weirglodd Wen, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd. LL23 7ST.
☎ 07818 454190 neu 01678 540745
llungwyn@btinternet.com

Mawrth 2021

'Llanuwchllyn dan glo'

Gyda chyfyngiadau cyfredol y pandemig Covid-19, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r penderfyniad anorfod i ohirio'r Eisteddfod am flwyddyn bellach, sydd yn siom mawr i ni gyd.

Gan fod hyn yn ein hamddifadu o flwyddyn arall o fwynhau doniau lleol yn cystadlu a pherfformio, mae'r Pwyllgor yn awyddus i goffáu'r cyfnod clo, trwy redeg eisteddfod rithiol i roi cyfle i drigolion Llanuwchllyn fwrw trem greadigol yn ôl, neu edrych tuag at y dyfodol boed hynny ar ffurf ysgrifenedig, celfyddyd weledol, ar lafar, dawns neu ar gân.

Ni fydd elfen gystadleuol i'r eisteddfod na beirniadaeth na gwobrau, ond ein bwriad yw coladu'r cynnyrch ddaw i law a'i gyhoeddi mewn aml gyfrwng gan gynnwys cyfrol brint o bosib, ynghyd â chyfryngau digidol yn ystod dyddiad arferol yr Eisteddfod ddiwedd Mai.

Estynnir gwahoddiad i bawb o'r ardal a hefyd rhai sydd â chysylltiad â Llanuwchllyn (boed wedi byw neu weithio yma) i gyfranogi trwy fynegiant gwreiddiol neu ffuglennol yn y meysydd canlynol:

Barddoniaeth neu Ryddiaith e.e. cerddi caeth neu rydd, monologau, teyrngedau, storïau, hanesion, dyddiaduron ayb;
Arlunio, Crefft neu Ffotograffiaeth;
Cerdd, Cerdd Dant neu Adrodd – Lleisiol a / neu offerynnol.
Dawns neu Actio

Er mai cofnodi'r cyfnod clo eithriadol yma yw'r bwriad, cael cyfle i ddarllen, gweld a mwynhau doniau lleol yw'r nod mewn gwirionedd, felly fe all y cynnyrch / perfformiadau fod yn unrhyw beth y dymunwch! Os oes rhai am gystadlu yn Eisteddfod T eleni, ella y byddwch yn barod i rannu eich ymgais gyda ni hefyd?

Fe rennir y cynnyrch (boed yn waith unigol neu gywaith) i gategorïau cynradd, uwchradd ac oedolion gyda'r gobaith o fedru cyhoeddi cymaint â phosibl os yn ymarferol i wneud hynny. Gorau oll os ellwch anfon clip fideo o'ch perfformiad neu ddatganiad neu efallai y byddwn am eich gwahodd i wneud hynny wedi'r dyddiad cau, neu wahodd rhywun i wneud ar eich rhan.

Amodau:

- Cyfyngir i rai gyda chyswllt (fel y diffinnir uchod) ag ardal Llanuwchllyn a disgyblion Ysgol O M Edwards;
- Dylid cyfyngu unrhyw glipiau fideo ar ffurf mp4 i ddim hwy na 3 munud o hyd ac unrhyw waith ysgrifenedig i 500 o eiriau;
- Rhoddir yr hawl i Bwyllgor yr Eisteddfod ddethol, golygu a chyhoeddi'r cynnyrch a gyflwynir yma bynnag gyfrwng y pennir fwyaf addas;
- Dyddiad cau derbyn cynnyrch: 1 Mai 2021.

Dychweler at:
Post neu trwy law: Ysgrifennydd yr Eisteddfod (gweler y cyfeiriad uchod);
E-bost: llungwyn@btinternet.com;
Neges destun 07818 454190 neu neges Messenger neu WhatsApp.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cynnyrch